# Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

**2010 mccc 7**

## RHAN 6

AMRYWIOL AC ATODOL

### 49 Ystyr gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd

(1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau canlynol yr adran hon, at ddibenion y Mesur hwn, gwasanaeth iechyd meddwl eilaidd yw–

- (a) gwasanaeth ar ffurf triniaeth i anhwylder meddwl unigolyn a ddarperir o dan Ran 1 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;
- (b) gwasanaeth a ddarperir o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983;
- (c) gwasanaeth gofal cymunedol ei brif ddiben yw diwallu angen sy'n ymwneud ag iechyd meddwl oedolyn;
- (d) gwasanaeth a ddarperir i blentyn o dan Ran III o Ddeddf Plant 1989 a'i brif ddiben yw bodloni angen sy'n ymwneud ag iechyd meddwl y plentyn hwnnw.

(2) At ddibenion is-adran (1), nid yw gwasanaeth i'w ystyried fel un a ddarperir o dan Ran 1 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 os darperir ef–

- (a) o dan adran 41 o'r Ddeddf honno;
- (b) o dan gontract gwasanaethau meddygol cyffredinol yr ymrwymwyd ynddo gan Fwrdd Iechyd Lleol o dan adran 42 o'r Ddeddf honno;
- (c) o dan drefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol yr ymrwymwyd ynddynt gan Fwrdd Iechyd Lleol o dan adran 50 o'r Ddeddf honno;
- (d) o dan Atodlen 1 i'r Ddeddf honno.

(3) Mae gwasanaeth ar ffurf triniaeth ar gyfer anhwylder meddwl unigolyn yn cynnwys gwasanaeth sydd, ym marn y person sy'n darparu neu sy'n gwneud trefniadau ar gyfer darparu'r gwasanaeth, yn wasanaeth y bwriedir iddo drin yr anhwylder meddwl yr amheuir ei fod gan yr unigolyn sy'n cael y gwasanaeth.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn–

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 15/02/2011. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Adran 49. (See end of Document for details)*

(a) pennu gwasanaethau eraill sydd i'w hystyried yn wasanaethau iechyd meddwl eilaidd at ddibenion unrhyw un neu ragor o ddarpariaethau'r Mesur hwn;

(b) darparu bod gwasanaethau a fyddai fel arall yn cael eu hystyried yn wasanaethau iechyd meddwl eilaidd i beidio a chael eu hystyried felly at ddibenion unrhyw un neu ragor o ddarpariaethau'r Mesur hwn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 49 mewn grym ar 15.2.2011, gweler **a. 55(1)(2)**(a)

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 15/02/2011. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Adran 49.